Atebodd yntau, “Yn wir, rwy’n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym mharadwys.”
(Luc 23:43)

Dyma’r ail o saith ymadrodd yr Arglwydd Iesu ar y groes. Mae’n ein hatgoffa o sawl gwirionedd: gwelwn fuddugoliaeth Crist ar deyrnas Satan, a gwelwn fod Duw **“â’r gallu ganddo i wneud yn anrhaethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na’i ddychmygu”** (Eff. 3:20).

Y troseddwyr

Dywed proffwydoliaeth Eseia fod y ‘Gwas Dioddefus’ wedi ei gyfrif gyda’r troseddwyr. A dyma ni’n gweld Oen Duw rhwng y troseddwyr ar y groes. Mae ymateb y ddau droseddwr i Grist yn symbol o’r effeithiau gwahanol fyddai’r groes yn ei chael ar y ddynoliaeth fyddai’n clywed yr Efengyl.

Mae’r troseddwr a edrychwn arno yn gyntaf yn galongaled at y diwedd. Roedd yn cablu’r Gwaredwr, er ei fod yn dyst i’w agwedd ryfeddol wrth ddioddef. Mae’n adleisio geiriau’r gwawdwyr, mae’n amau Iesu fel Meseia, mae ei ysbryd yn falch, hyd yn oed yng nglyn cysgod angau. Dydy trafferth, poen na dioddefaint yn eu hunain ddim yn ddigon i doddi calon falch pechadur gerbron Duw. Yn wir, dim ond caledu wna llawer, fel Pharo yn wyneb plâu erchyll Duw. Er ei fod yn cablu Crist, mae hwn mor hyf â gofyn iddo’i achub run pryd. Does dim arwydd o edifeirwch nac ymostyngiad, dim ond meddwl sut i osgoi ei gosb a’i boen.

Mae’r ail droseddwr yn meddalu ac yn toddi yn y diwedd. Yn ôl efengylau Mathew a Marc, roedd y ddau’n cablu. Mae fersiwn Luc yn dangos bod un lleidr wedi cael calon newydd nes ymlaen. Mae nifer o ffactorau pwysig i’w nodi am ei eiriau a’i gais i Iesu sydd yn dangos arwyddion yr aileni:

Ei gerydd

Mae’n ceryddu’r troseddwr arall am nad yw’n ofni Duw; a heb ystyried ei fod o fewn oriau i gwrdd â’i Greawdwr, a hynny fel troseddwr. Mae hyn yn awgrymu bod ofn Duw wedi gafael yn hwn. Mae ymwybyddiaeth o sarhau Duw yn elfen allweddol mewn gwir edifeirwch.

Ei gyffes

Mae’n cyfaddef ei fod (fel y llall) yn haeddu ei gosb. Does dim ymdrech i wadu na chuddio’i fai, dim ymdrech i’w gyfiawnhau nac i’w amddiffyn ei hun. Mae’n cydnabod cyfiawnder y gosb, ac, felly, mae’n cydnabod cyfiawnder Duw hefyd.

Ei gred

Mae'n credu bod Crist yn dioddef ar gam. Yn fwy na hynny, mae'n gweld bod Iesu yn Arglwydd fydd yn etifeddu teyrnas. Mae'n gweld awdurdod ynddo, mae'n gweld ei ffafr a'i fendith yn werthfawr, er fod Iesu yng nghanol gwendid a gwarth affwysol, wedi ei adael gan y disgyblion, ei genedl, a'r Tad. Mae'n cael golwg ffydd i weld bywyd mewn angau, gogoniant mewn gwarth, dyrchafiad mewn dinistr, buddugoliaeth mewn colled, ac i weld concwerwr mewn caethiwed. Pam y newid? Yn gyntaf, rhaid nodi mai gwaith Duw yw hyn trwy'r Ysbryd Glân. Hefyd mae wedi sylwi, mae'n siŵr, ar agwedd Iesu, mae wedi clywed yr ymadrodd cyntaf, ac, o bosibl, mae wedi clywed eisoes am Iesu.

Gostyngeiddrwydd

Mae'n ei ddarostwng ei hun ac yn cael ei ddyrchafu gan Grist, yn ôl yr addewid yn Luc 18.14. Ei gais syml yw am gael ei gofio.

Gafael trwy weddi

Mae'n gafael yn daer yng Nghrist trwy ei weddi. Bydd un gair o gysur yn ddigon i'r troseddwr sy'n tywallt ei enaid gerbron Iesu. Mae'n esiampl i ni sut i afael ar Grist mewn gweddi.

Yr ateb

Mae ateb Iesu yn fendigedig. Roedd wedi gofyn am gael ei gofio yn y dyfodol, ond daw'r ateb 'heddiw'. Roedd ei gais am gael ei gofio yn weddol benagored a niwlog, ond daw'r ateb y caiff fod gydag ef. Mae'n gofyn am gornel fach yn y deyrnas, ond mae'n cael addewid o baradwys.

Mae'r hanesyn bach yma yn dangos pwrpas dyfodiad Mab y Dyn, a phwrpas y groes, sef achub pechaduriaid. Arbenigedd peiriant golchi yw golchi dillad, beth bynnag eu cyflwr. Arbenigedd y Gwaredwr yw derbyn pechaduriaid, beth bynnag eu cyflwr, pryd bynnag y dônt ato o ddifrif.

Mae hyn yn dangos bod Iesu'n disgwyl dod i'w deyrnas hefyd. Roedd yn disgwyl y gogoniant ar ôl y goron ddrain. Roedd wedi addo paradwys i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell (Ioan 14).

Paradwys

Mae geiriau Iesu yn dweud llawer am baradwys wrthym. Presenoldeb Crist yw paradwys:

Ef yw Afon y Bywyd sydd fry,
Ef yw'r Manna cuddiedig a drud;
Efe yw hyfrydwch y llu –
Fy Iesu yw'r nefoedd i gyd. (Pantycelyn).

Aiff enaid credadun yn syth i baradwys wrth i'r corff farw. Nefoedd yw paradwys, adferiad o Eden a mwy, oherwydd ni chaiff hwn fyth ei golli.